Coleg Gwent

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# EAL Dilyniant mewn Gosodiadau Trydanol Lefel 2



**Yn gryno**

Mae’r cwrs Dilyniant mewn Astudiaethau Trydanol yn rhoi dealltwriaeth eang ond manwl i chi o waith a sgiliau trydanwr. Bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel Trydanwr yn y diwydiant adeiladu.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Oes gennych chi ddiddordeb mewn prentisiaeth neu yrfa fel gosodwr trydanol

... Rydych eisoes wedi cyflawni Diploma Lefel 2 (Sylfaen) mewn gwaith trydanol

... Rydych am gael gwybodaeth ymarferol a gwybodaeth theori

**Cynnwys y cwrs**

Mae’r cwrs Dilyniant mewn Astudiaethau trydanol yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau a’ch gwybodaeth i safon uchel a gydnabyddir gan y diwydiant.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn dysgu sut i osod a phrofi amrywiaeth o gylchedau trydanol yn ein gweithdai helaeth eu hoffer.

Byddwch yn ymdrin ag amrywiaeth o unedau yn ystod y cwrs, gan gynnwys:

Gwaith Gosod Trydanol
Deall Sut mae Gosod Amgaeadau ar gyfer Ceblau Trydanol, Dargludyddion a Systemau Weirio
Deall Sut mae Gosod a Chysylltu Ceblau, Dargludyddion, Systemau Weirio a Chyfarpar Trydanol

Deall Sut mae Archwilio a Phrofi Cylchedau Trydanol wedi'u Dad-wefru
Deall Gwyddoniaeth ac Egwyddorion Trydanol Canolradd

Cyflwynir y cwrs drwy sesiynau ymarferol mewn cyfleusterau gweithdy rhagorol a gwersi theori i ategu'r wybodaeth a ddysgwyd yn y sesiynau ymarferol.

Byddwch yn cael eich asesu drwy brosiectau ymarferol, profion ysgrifenedig ac ar-lein.

**Gofynion Mynediad**

I ymuno â'r cwrs, bydd arnoch angen Diploma Lefel 2 (Sylfaen) mewn Astudiaethau Trydanol

A naill ai TGAU Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae dysgwyr ar y cwrs hwn fel arfer yn symud ymlaen i Brentisiaeth neu Gyflogaeth ym maes Gosodiadau Trydanol.